Gwell Cysylltiadau Busnes Organig, Canolfan Organig Cymru,
IBERS, Aberystwyth University SY23 3EB Tel: 01970 622248
bobl-project@aber.ac.uk www.canolfanorganigcymru.org.uk

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig
BOBL
Better Organic Business Links

Rhifyn 7 Hydref 2011

Un o brosiectau Canolfan Organig Cymru

Cyngor buddiol ar gyfer gwell busnes

Mae chwech ar hugain o fusnesau organig yng Nghymru wedi mynd drwy 'archwiliad iechyd' a fu'n edrych ar sut roeddent yn perfformio'n erbyn dangosyddion arferion gorau mewn cysylltiad â chynaliadwyedd a sut y gallent wella eu busnesau. Yna, bu deg o'r busnesau hyn yn cael ymgynghoriad manylach sydd wedi arwain at gynllun gweithredu cynaliadwyedd sydd wedi'i deilwra'n arbennig i'w hanghenion. Mae hyn yn rhan o'r prosiect Gwell Cysylltiadau Busnes Organig a gyflawnwyd gan *Weir-tscs*.
Bu'r archwiliad iechyd yn mesur perfformiad yn erbyn 23 o agweddau ar y meincnod rhagoriaeth cynaliadwyedd, gan gynnwys rheoli cynaliadwyedd, effeithlonrwydd adnoddau, effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi a darparu cyflenwyr a phrynu. Dangoswyd ystod eang o arferion gyda rhai busnesau'n gryf iawn o ran hybu eu cynhyrchion ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â lleihau gwastraff a deunyddiau pacio. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi nodi er bod busnesau'n gyffredinol yn canolbwyntio'n dda ar yr agwedd organig weithiau nid ydynt cystal o ran rheoli cynaliadwyedd cyffredinol ac effeithiau eraill ar yr amgylchedd.

Mae'r gwaith hwn wedi amlygu nifer o themâu cyffredin i'r sector organig yng Nghymru a'i cadwyni cyflenwi:

1. **Mae angen cymorth ar fusnesau organig i leihau ôl troed a chostau eu cadwyni cyflenwi**
   Mae'r sector organig yn dameidiog ac yn cynnwys mentrau bach a chanolig gan mwyaf sydd â bwriadau da ond nad ydynt yn aml yn cynllunio. Mae'n bosibl nad oes ganddynt y mesurau na'r gallu i edrych ar agweddau ehangach y tu hwnt i'w weithrediadau eu hunain. Mae angen parhau i'w cefnogi i helpu i flaenoriaethu lle y mae angen gweithredu i ddarparu arweiniad effeithiol ar arferion gorau a chamau ymarferol

2. **Rhagoriaeth weithredol yn allweddol i wella'n gyffredinol**
   Mae llawer o'r busnesau lleiaf yn canolbwyntio'n dda ar yr organig, ond yn aml yn diystyru edrych ar eu busnesau mewn ffyrdd eraill sy'n fwy strwythuredig. Bydd cymorth wrth asesu'r agweddau masnachol a chynaliadwyedd yn helpu i wneud cynnydd. Yn arbennig mae angen i fusnesau organig fesur a thargedu agweddau ar gynaliadwyedd megis ynni, tanwydd, carbon, gwastraff, d ŵr, deunyddiau cynaliadwy, defnyddio cludiant, cyflenwyr ardystiedig ac yn y blaen. Drwy dargedu a thrwyddedu cynnydd, bydd busnesau'n gallu cynyddu sgôr eu cynaliadwyedd er mwyn lleihau costau'r gadwyn gyflenwi. Mae angen canolbwyntio'n fwy hefyd ar berfformiad busnesau a mesur arbedion effeithlonrwydd i flaenoriaethu meysydd lle y gellir lleihau costau ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn i'r pen.

3. **Canolbwyntio ar fewnbynnau i leihau risgiau**
   Er bod anghenion mewnbynnau busnesau organig, yn enwedig rhai amaethyddol, yn gyfyngedig, yn aml, ni fydd y ffynonellau wedi'u halinio'n llwyr â nodau cynaliadwyedd – megis dod â bwydydd i mewn o bell. Gyda chwsmeriaid yn chwilio fwyfwy am gynhyrchiol 'lleol', mae'r arferiad hwn yn cynnig risg posibl i hyder cwsmeriaid yn y brand 'organig'. Mae angen felly i ffynonellau lleol gael eu hadnabod a'u dilyn lle mae hynny'n

Parhad tud 2

Parhad o tud 1

economaidd, gyda rhesymeg glir os oes raid defnyddio cyflenwadau a ddygir i mewn. Rhaid asesu cyflenwyr y tu hwnt i fod yn ardystiedig yn organig er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau moesegol, cymdeithasol a safonau amgylcheddol eraill.

4. Lleihau costau ac ôl troed trwy gydweithredu
Gan fod y rhan fwyaf o fusnesau organig yng Nghymru'n gymharol fach, mae angen iddynt gydweithio'n fwy â'i gilydd ac â busnesau anorganig lle bo'n briodol. Weithiau, bydd arfer gorau'n cael ei rannu'n anffurfiol, ond mae rhaid wrth anogaeth a chyfranogaeth fwy gweithgar fel y gall arweinwyr rannu eu syniadau a llwyddiannau â'r sector cyfan. Ar hyn o bryd, ceir rhai grwpiau prynu, ond bydd mwy o gyfranogaeth yn gadael trosoleddu er mwyn lleihau costau prynu. Ymhlith y categorïau ar gyfer hyn y mae tanwydd, trydan, porthiant anifeiliaid, deunyddiau pacio, cludiant a chasglu/ailgylchu gwastraff. Yn anaml yr eir ati mewn ffordd integredig wrth ddelio â chludiant allan na chludiant i mewn. Mae hyn yn golygu na fydd cerbydau'n cael eu defnyddio ar rai siwrneiau. Mae cyfle i rannu cludiant a fydd yn lleihau costau ac ôl troed, er y bydd angen cefnogaeth gan bartneriaid y tu allan i'r sector.

5 Gwell twf busnes trwy estyn organig yn gynaliadwyedd
Nid yw rhai o'r cwsmeriaid presennol na phosibl yn llwyr ddeall sut mae organig eisoes yn coleddu llawer o agweddau ar gynaliadwyedd yn ei gadwyni cyflenwi. Mae angen i fusnesau organig flaenoriaethu'r agweddau hyn megis cyrchu cyflenwadau'n lleol, lleihau effeithiau amgylcheddol ac arferion moesegol. Bydd hyn yn helpu i wella'r 'brand' organig trwy ei estyn i agweddau ar y gadwyn cyflenwi y mae defnyddwyr yn ymboeni yn eu cylch. Mae angen diffinio'r safonau a negeseuon cynaliadwyedd priodol a fydd yn dylanwadu ar y defnyddwyr i brynu mwy o nwyddau organig.



Mae'r prosiect hwn wedi edrych ar gadwyni cyflenwi'r sector organig yn ei grynswth yng Nghymru. Yn ychwanegol at y themâu cyffredin sy'n cael eu hamlygu uchod, cafwyd rhai canlyniadau sy'n fwy penodol i wahanol fentrau ynglŷn â'r sectorau cig coch, godro, cynnyrch ffres, cyfanwerthu/manwerthu a phrosesu. Mae hefyd materion strategol i bob is-sector y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn cysylltiad â goroesiad a llwyddiant hirdymor. Byddwn yn cyhoeddi manylion ynglŷn â mentrau unigol yn fuan.
Am fwy o wybodaeth am brosiect y gadwyn gyflenwi, cysylltwch â ni ar **01970 622248** neu e-bostiwch **bobl-project@aber.ac.uk**

Tir Organig

Mae Canolfan Organig Cymru wedi lansio'r arwydd cyntaf yng Nghymru i roi gwybod i gerddwyr a thwristiaid pryd y mae'r tir o dan eu traed yn organig. Mae'r arwyddion 'Tir Organig' dwyieithog newydd ar gael yn ddi-dâl i ffermydd organig ardystiedig yng Nghymru ac maent i'w gweld yn boblogaidd iawn.

Mae bron 9% o'r tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru'n organig, bron dwywaith cymaint â'r tir organig dros y ffin yn Lloegr. Mae'r arwyddion yn cynnig ffordd o gredydu ffermwyr sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau statws organig ardystiedig i'w ffermydd. Gellir defnyddio'r arwyddion newydd ar ffensys, camfeydd lle bynnag y mae llwybrau troed yn croesi neu'n rhedeg ochr yn ochr â thir organig, gan gynnig ffordd i ffermwyr arddangos eu tir organig i aelodau o'r cyhoedd a thwristiaid.

Meddai Gwynfor Hallet, cerddwr o Gymro o Donyrefail: "Dw i'n meddwl bod yr arwyddion yn syniad gwych. Mae'r wraig a finne'n bwyta cynnyrch organig pryd bynnag y gallwn ni, ond, am wn i, heblaw am y geiriad a'r brandio sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch, does gyda ni ddim cysylltiad go iawn â'r man o ble mae e'n dod. Pan fydda i mynd mas am dro, bydde'n ddiddorol gweld arwydd 'Tir Organig' i daro'r post o ran y cysylltiad sydd rhwng y bwyd ar fy mhlât cinio a'r tir dw i'n cerdded arno fe." Gall ffermwyr organig ardystiedig archebu eu harwyddion 'Tir Organig' di-dâl trwy gysylltu â thîm BOBL ar **bobl-project@aber.ac.uk** a **01970 622248**.

Hybu bwyd organig trwy amaeth-dwristiaeth gynaliadwy

Mae Canolfan Organig Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar sut y gallai sector amaeth-dwristiaeth ehangach ddarparu cyfle marchnad i fwyd organig a hybu hunaniaeth werdd busnesau twristiaeth trwy gynnig bwyd organig i ymwelwyr. Mae'r canllaw hefyd yn darparu man cychwyn i'r rheini sy'n ystyried dechrau menter amaeth-dwristiaeth. Wrth i nifer cynyddol o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, blas lleol a phrofiadau dilys ymgyfuno, mae amaeth-dwristiaeth yn sector o'r farchnad sy'n aeddfed i'w ddatblygu. Mae'r canllaw hefyd yn darparu manylion ar sut i ddatblygu cynllun busnes cyflawn i'r rheini sy'n newydd i amaeth-dwristiaeth a bydd gweithredwyr amaeth-dwristiaeth sydd eisoes yn bodoli'n cael hyd i gyngor ymarferol ar fesurau i leihau ymhellach eu hallyriadau carbon, arbed ynni a hyrwyddo eu cyrchfannau fel y dewis gwyrdd. O gofio natur gystadleuol y farchnad, mae'r manteision a ddaw yn sgil ardystio fel busnes gwyrdd neu amaeth-dwristiaeth hefyd yn cael eu trafod. Am gopi caled o'r adroddiad hwn, cysylltwch â **bobl-project@aber.ac.uk 01970 622248** neu gallwch gael hyd i gopi ar lein ar **www.organiccentrewales.org.uk/uploads/agritourisme_july11.pdf**

Defnyddio dulliau cyfryngau cymdeithasol i feithrin eich busnes

Mae defnydd gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Gweplyfr a Thrydar yn cynyddu fesul wythnos ac mae busnesau sydd wedi gohirio cymryd rhan yn methu tric bach handi! Llwyfan **am ddim** yw gwefannau cyfryngau cymdeithasol sy'n rhwydd ei gyrchu i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. Os ydych yn newydd i fyd rhwydweithio cymdeithasol ac rydych am weld sut mae busnesau fel eich un chi'n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i hyrwyddo a datblygu eu busnesau, cysylltwch os hoffech i ni gynnal gweithdy yn eich ardal chi. Yn ogystal â gweithdai, rydym hefyd yn datblygu pecyn Cyflwyniad i Gyfryngau Cymdeithasol a anfonir gennym i fusnesau organig yn y man.

Byddwn hefyd yn ailgynnal ein gweithdai llwyddiannus mewn hyfforddiant yn y cyfryngau yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Bwriad y gweithdai hyn yw helpu busnesau i ddeall sut mae'r farchnad ar gyfer cynnyrch organig yn datblygu a sut i ymgysylltu â'r cyfryngau. Bydd galluogi busnesau i weithio'n adeiladol â'r cyfryngau'n cefnogi datblygu'r sector organig a helpu i ledaenu negeseuon cadarnhaol am fwyd a ffermio organig Cymru. Bydd hyn yn ei dro'n meithrin ymrwymiad defnyddwyr i brynu'n organig. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'r gweithdai hyn cysylltwch â ni ar **01970 622248** neu ar **bobl-project@aber.ac.uk**

Cymunedau Bwyd Cynaliadwy



Mae Cymdeithas y Pridd yn cynnal prosiect o'r enw Cymunedau Bwyd Cynaliadwy (CBC(SFC)) yng Nghymru a ariennir gan y prosiect BOBL. Nod rhaglen CBC yw sbarduno newidiadau sylweddol yn y diwylliant bwyd trwy gefnogi cymunedau bwyd yng Nghymru trwy addysg fwyd, ymgysylltu ymarferol a phrynu a bwyta cynnyrch. Ar hyn o bryd, mae cynllun CBC yn gweithio mewn pedair ardal, Glan-yr-afon, Caerdydd, y Drenewydd, Sir Benfro a Gwynedd. Mae ychydig gyllid ar gael ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â bwyd ym mhob un o'r pedair cymuned leol, ac rydym eisoes wedi derbyn rhai cynigion cyffrous a mentrus ar gyfer prosiectau!

Bydd Ymddiriedolaeth Bwyd a Thir Canolbarth Cymru'n gweithio ag Ysgol Gynradd Penygloddfa yn y Drenewydd i ddatblygu menter tyfu llysiau. Bydd yr ysgol yn tyfu ac yn cyflenwi cynnyrch i Gynllun Blychau Cwm Harry yn lleol, partneriaeth a fydd yn gydfuddiol i'r ysgol a'r cynllun blychau. Yng Nghaerdydd, mae Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan-yr-afon yn arwain wrth ddatblygu siartr leol sydd â'r nod o greu system fwyd gynaliadwy i Gaerdydd. Disgwylir y bydd y siartr yn cael ei lansio'n nes ymlaen eleni. Yn ychwanegol, bydd Cymdeithas y Farchnad yn cydgysylltu prosiect i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus am "ffrwyth trefol" ac i'w brynu a'i fwyta. Bydd hyn yn cynnwys annog plannu coed ffrwythau a dosbarthu'r cynhaeaf i bobl leol, yn enwedig i ardaloedd difreintiedig. Bydd gennym y newyddion diweddaraf am y prosiectau hyn ac eraill yn y cylchlythyr nesaf.

Os ydych yn byw yn un o'r pedair ardal y sonnir amdanynt uchod ac os oes gennych syniad ar gyfer prosiect sy'n gysylltiedig â bwyd a fydd, yn eich barn chi, yn ategu gwaith y CBC, cysylltwch â Phil Morgan. Rhaid i'r mentrau fod yn arloesol gan adeiladu ar y tri maes - addysg, ymgysylltu a phrynu a bwyta cynnyrch.
PMorgan@soilassociation.org

Addysg er datblygu cynaliadwy: Beth sydd angen i ni ei ddysgu am y gadwyn fwyd?

Gofynnir bod pob ysgol yng Nghymru bellach yn addysgu plant am ddatblygu cynaliadwy a'u helpu i wneud dewisiadau da wrth iddynt fynd yn hŷn. Rhan hanfodol o hyn yw bwyd oherwydd mae rhaid i bawb fwyta ac mae cynhyrchu a chludo bwyd yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd. Mae Canolfan Organig Cymru'n rhan o weithgor sy'n datblygu'r arferion gorau mewn addysg fwyd gan gyhoeddi papur testun yn ddiweddar, '*Transformative education and food: thoughts from Wales*'. Erbyn hyn mae'r grŵp yn trefnu digwyddiad lle y bydd pobl o wahanol rannau o'r gadwyn fwyd (ffermwyr, proseswyr, cyfanwerthwyr, arlwywyr) yn dod ynghyd i drafod sut olwg fyddai ar gadwyn fwyd gynaliadwy, gan ystyried y tir cyffredin rhyngddynt a'u hysbrydoliaeth ar gyfer yr hyn y maent yn ei wneud, yn ogystal â'r ffyrdd maent yn wahanol. Bydd y canlyniadau'n dylanwadu ar addysg fwyd yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer ysgolion ond i'r cyhoedd hefyd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jane Powell, **jnp@aber.ac.uk**.

Digwyddiadur

Dyddiadau i'ch dyddiadur – am fwy o fanylion gweler y dudalen ddigwyddiadau ar ein gwefan:
www.organiccentrewales.org.uk/eventslist.php

Cynhadledd Canolfan Organig Cymru–Organig: Gwell Busnes
Ddydd Iau 27 Hydref 2011 – Maes y Sioe, Llanelwedd

Helpwch i ddatblygu'r sector organig yng Nghymru....Rydym am glywed gennych!
Os oes gennych syniad a fydd, yn eich barn chi, er budd y sector organig Cymreig, cysylltwch â ni. Mae gennym gyllid ar gael i ymchwil gwmpasu, prosiectau peilot ac i edrych ar syniadau arloesol.

Lluniau: Anthony Pugh

Nod y prosiect BOBL ywmeithrin gwell cysylltiadau ledled y gymuned fusnes organig i sicrhau proffidioldeb, cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol penigamp.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government